LEG-19-2001 (min)

**CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU**

**COFNODION:**

**Dyddiad:** 3 Gorffennaf 2001
**Amser:** 9:30 a.m.
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Presennol:**

| | |
|---|---|
| Mick Bates (Cadeirydd) | (Democrat Rhyddfrydol) |
| Rosemary Butler | (Llafur) |
| Glyn Davies | (Ceidwadwr) |
| Ron Davies | (Llafur) |
| John Griffiths | (Llafur) |
| Pauline Jarman | (Plaid Cymru) |
| Dr Dai Lloyd | (Plaid Cymru) |
| Owen John Thomas | (Plaid Cymru) |

**Swyddogion:**

| | |
|---|---|
| John Turnbull | Ymgynghorydd Cyfreithiol |
| D Huw Davies | Ymgynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol |
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |
| Julie Owen | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Dim.

**Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod blaenorol a materion sy'n codi: LEG-18-2001 (min)**
1.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Mehefin 2001.

**Eitem 2: Adroddiad y Cadeirydd**
2.1 Hysbysodd y Cadeirydd yr aelodau y bydd yn hedfan i Sydney yn ddiweddarach yr wythnos hon er mwyn mynychu'r Gynhadledd Ryngwladol ar Ddiwygio Rheoliadau, Rheoli a Chraffu ar Ddeddfwriaeth a gynhelir gan Senedd Talaith New South Wales. Fel rhan o'r rhaglen byddai'r Cadeirydd yn rhoi cyflwyniad ar "Ddiwygio Rheoliadol – Persbectif Cymreig" ar ddydd Gwener y gynhadledd.

2.2. Hefyd, hysbysodd y Cadeirydd yr aelodau iddynt gytuno yn y cyfarfod diwethaf i ysgrifennu at Val Feld a diolch iddi am ei gwaith ar y Pwyllgor. Gwnaed hynny.

2.3 Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau y byddai Mr Winston Roddick, y Cwnsler Cyffredinol, yn mynychu Cyfarfod y Pwyllgor ar 17eg Gorffennaf er mwyn ateb unrhyw gwestiynau a oedd gan yr Aelodau ar ei gyflwyniad cynharach ar "Lunio Deddfwriaeth Ddwyieithog a Chyfiawnder", sef y technegau cyd-ddrafftio a ddefnyddir ar gyfer deddfwriaeth ddwyieithog gan Lywodraeth Ffederal Canada. Gofynnwyd i'r aelodau anfon eu cwestiynau ar gyfer Mr Roddick at Glerc y Pwyllgor, ond hyd yn hyn ni dderbyniwyd yr un cwestiwn. Gofynnodd y Cadeirydd i'r aelodau lunio rhai cwestiynau i'w rhoi i'r Clerc er mwyn iddo yntau allu eu trosglwyddo at y Cwnsler Cyffredinol. **Gweithredu: Aelodau a'r Clerc.**

**Eitem 3: Gorchmynion Cynulliad i'w Hystyried**

**LC299: Gorchymyn Deddf yr Amgylchedd 1995 (Cychwyn a Darpariaeth Arbed Tir Halogedig) (Cymru) 2001**
3.1 Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaed y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Gorchymyn ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor nifer o sylwadau cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad.

3.3. Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC299 (Adroddiad).

**LC300: Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru 2001**
3.4 Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Safonol.

3.5 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor nifer o sylwadau cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad. Pe bai'r Gweinidog yn dymuno diwygio'r Rheoliadau er mwyn ymgorffori'r pwyntiau hyn byddai'n briodol eu cynnwys mewn Memorandwm Cywiriadau.

3.6 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC300 (Adroddiad).

**LC301: Gorchymyn Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001 (Cychwyn) 2001**
3.7 Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Safonol.

3.8 Ar ôl ystyried adroddiad yr Ymgynghorydd Cyfreithiol, cytunodd yr Aelodau fod mater i'w godi o dan Reol Sefydlog 11.5. Roedd nifer o fân wallau yng Nghymal 2(2) gan gynnwys hepgor cyfeiriad at Adran 8. Gan fod y rhain yn fân wallau drafftio cytunwyd y dylid eu diwygio o dan RhS22.13 drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau. Byddai adroddiad y Pwyllgor yn nodi ei fod yn amodol ar gywiro'r gwall hwn yn y modd hwn.

3.9 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC301 (Adroddiad).

**LC302: Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 7) (Cymru) 2001**

3.10 Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Safonol.

3.11 Ar ôl ystyried adroddiad yr Ymgynghorydd Cyfreithiol, cytunodd yr Aelodau fod mater i'w godi o dan Reol Sefydlog 11.5. Er bod y Gorchymyn yn darparu ar gyfer cychwyn paragraff 3 yn Atodlen 5 i Ddeddf 2000 nid oedd yn darparu ar gyfer cychwyn adran 117(1) sy'n cyflwyno Atodlen 5. Gan fod hyn yn fân wall drafftio cytunwyd y dylid ei ddiwygio o dan RhS22.13 drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau. Byddai adroddiad y Pwyllgor yn nodi ei fod yn amodol ar gywiro'r gwall hwn yn y modd hwn.

3.12 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC302 (Adroddiad).

**LC303: Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Diwygio) (Cymru) 2001**

3.13 Cyflwynodd Mr Davies ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Safonol.

3.14 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddo unrhyw sylwadau cyffredinol ychwaith.

3.15 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC303 (Adroddiad).

**LC304: Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Mân Dreuliau) (Diwygio) (Cymru) 2001**

3.16 Cyflwynodd Mr Davies ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Safonol.

3.17 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddo unrhyw sylwadau cyffredinol ychwaith.

3.18 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC304 (Adroddiad).

**LC305: Rheoliadau Melysyddion mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2001**
3.19 Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.20 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor nifer o sylwadau cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad. Pe bai'r Gweinidog yn dymuno diwygio'r Rheoliadau er mwyn ymgorffori'r pwyntiau hyn byddai'n briodol eu cynnwys mewn Memorandwm Cywiriadau.

3.21 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC305 (Adroddiad).

**LC306: Gorchymyn Deddf Trafnidiaeth 2000 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2001**
3.22 Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Estynedig.

3.23 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor un sylw cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid ei gofnodi yn ei adroddiad.

3.24 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC306 (Adroddiad).

**LC307: Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau Aelodau) (Diwygio) (Cymru) 2001**
3.25 Cyflwynodd Mr Davies ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Safonol.

3.26 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddo unrhyw sylwadau cyffredinol ychwaith.

3.27 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC307 (Adroddiad).

**LC308: Rheoliadau Gweithfeydd Stryd (Ffioedd Archwilio) (Diwygio) (Cymru) 2001**
3.28 Cyflwynodd Mr Davies ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.29 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddo unrhyw sylwadau cyffredinol.

3.30 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC308 (Adroddiad).

**LC309: Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2001**

3.31 Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.32 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor nifer o sylwadau cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad. Pe bai'r Gweinidog yn dymuno diwygio'r Rheoliadau er mwyn ymgorffori'r pwyntiau hyn byddai'n briodol eu cynnwys mewn Memorandwm Cywiriadau.

3.33 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC309 (Adroddiad).

**LC310: Gorchymyn Etholiadau Llywodraeth Leol (Cymru) 2001**

3.34 Cyflwynodd Mr Davies ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Safonol.

3.35 Ar ôl ystyried adroddiad yr Ymgynghorydd Cyfreithiol, cytunodd yr Aelodau fod mater i'w godi o dan Reol Sefydlog 11.5. Mae teitl y testun Cymraeg yn wahanol i'r hyn a geir yn y Testun Saesneg. Gan fod hyn yn fân wall drafftio cytunwyd y dylid ei ddiwygio o dan Reol Sefydlog 22.13 drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau. Byddai adroddiad y Pwyllgor yn nodi ei fod yn amodol ar gywiro'r gwall hwn yn y modd hwn.

3.36 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC310 (Adroddiad).

**LC311: Rheoliadau Cyfyngiadau Mewnforio ac Allforio (Clwy'r Traed a'r Genau) (Cymru) (Rhif 8) 2001**

3.37 Cyflwynodd Mr Davies ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaed y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.38 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor nifer o sylwadau cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad.

3.39 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC311 (Adroddiad).

**LC312: Gorchymyn Clwy'r Traed a'r Genau (Diwygio) (Cymru) (Rhif 8) 2001**

3.40 Cyflwynodd Mr Davies ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaed y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.41 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Gorchymyn ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor

nifer o sylwadau cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad.

3.42 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC312 (Adroddiad).

**LC313: Rheoliadau Plant (Eu Hamddiffyn rhag Tramgwyddwyr) (Diwygio) (Cymru) 2001**
3.43 Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Safonol.

3.44 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor nifer o sylwadau cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad.

3.45 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC310 (Adroddiad).

**Eitem 4: Unrhyw Fusnes Arall a Dyddiad y cyfarfod nesaf**
4.1 Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau yn y cyfarfod ar 19 Mehefin i'r Pwyllgor ystyried ymateb gan y Gweinidog dros Faterion Gwledig yn ymwneud â'r **Rheoliadau Clwy'r Traed a'r Genau (Marcio Cig a Chynhyrchion Cig) (Cymru) 2001 (LC235).** Roedd yr aelodau'n fodlon â'r eglurhad o'r pwyntiau gwreiddiol a godwyd. Fodd bynnag, nododd yr Aelodau fod y diffiniad o "gynhyrchion cig" a gafwyd yn llythyr Mr Jones yn cynnwys "cig a gafodd ei drin yn fecanyddol". Tybiai'r aelodau nad oedd y sylwedd hwn bellach yn cael ei ganiatáu yn ôl y gyfraith gan gwestiynu ei gynnwys. Cytunwyd y byddai ymholiadau pellach yn cael eu gwneud ar y mater hwn.

4.2 Nododd yr ymateb gan y cyfreithiwr drafftio na wnaed unrhyw gynnig i ddileu'r eithriad. Nodwyd y dylid parhau i nodi'n bendant na ellid marcio cig a gafodd ei drin yn fecanyddol â stamp swyddogol er gwaetha'r ffaith, yn ymarferol, na ddylai unrhyw gig a gafodd ei drin yn fecanyddol fodoli. Pe dilëir yr eithriad yn benodol am nad yw'n angenrheidiol gallai hynny gyfleu'r neges anghywir ynglyn â statws cig a gafodd ei drin yn fecanyddol ac awgrymu ei fod bellach yn cael ei gynnwys yn y diffiniad o gynhyrchion cig. Ni chredwyd ei fod yn briodol peri cymhlethdod o'r fath yng nghanol argyfwng clwy'r traed a'r genau.

4.3 Cododd un o'r aelodau fater yn ymwneud â'r Rheoliadau Gwastraff Rhagnodedig (Cymru) 2001 a fu'n peri pryder i'r aelodau pan drafodwyd y Rheoliadau mewn cyfarfodydd blaenorol. Deellir bellach bod y Rheoliadau hyn wedi'u diddymu. Trafodir y gorchymyn i'w diddymu yn y cyfarfod nesaf.

4.2 Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 17 Gorffennaf 2001.

**Adroddiadau a Atodir**

- LC299 (Adroddiad)

- LC300 (Adroddiad)
- LC301 (Adroddiad)
- LC302 (Adroddiad)
- LC302 (Adroddiad)
- LC303 (Adroddiad)
- LC304 (Adroddiad)
- LC305 (Adroddiad)
- LC306 (Adroddiad)
- LC307 (Adroddiad)
- LC308 (Adroddiad)
- LC309 (Adroddiad)
- LC310 (Adroddiad)
- LC311 (Adroddiad)
- LC312 (Adroddiad)
- LC313 (Adroddiad)